24AIN O EBRILL

# Ysgol Treganna

## Cylchlythyr Wythnosol



### Calendr

**Gŵyl y Banc**
**4/5/26**

**Bore Agored Math**
**7/5/26**

## Wythnos yma

Rydym wedi cael wythnos hyfryd yn yr ysgol, ac mae pawb wedi ymgartrefu'n dda yn ôl i'r drefn. Mae clybiau ar ôl ysgol wedi ailgychwyn yr wythnos hon. Cofiwch fod y clybiau hyn yn agored i bawb, ond mae angen cofrestru ymlaen llaw drwy ParentPay. Hoffem ddiolch yn fawr i'r staff sy'n trefnu ac yn cynnal y clybiau hyn ar ôl ysgol.

### Mrs Healen

Hoffem ddymuno pob hwyl i Mrs Healen sy'n ein gadael heddiw er mwyn cychwyn ar ei chyfnod mamolaeth. Dymunwn bob hapusrwydd a llwyddiant iddi yn ystod y cyfnod cyffrous hwn. Rydym yn ddiolchgar iawn am ei gwaith caled a'i hymroddiad, a byddwn yn edrych ymlaen at ei chroesawu'n ôl yn y dyfodol. Pob lwc a mwynhewch bob eiliad arbennig!

### Gŵyl Rygbi'r Urdd

Bu nifer o dimau o Flynyddoedd 4, 5 a 6 yn cystadlu yng Ngŵyl Rygbi'r Urdd ar gaeau Llandaf yr wythnos hon. Roedd yn hyfryd rhoi cyfle i bawb gymryd rhan a chystadlu, ac roedd pob disgybl yn glod i'r ysgol ac wedi perfformio yn wych! Llongyfarchiadau i dîm rygbi tag cymysg blwyddyn 4, a bydd y criw yma nawr yn cystadlu yn y rownd genedlaethol yn Aberystwyth. Diolch yn fawr i'r staff wnaeth hyfforddi'r timau.

### Menter Gyffrous yn Ysgol Treganna.

Cawsom ddigwyddiad cyffrous iawn yn Ysgol Treganna'r wythnos hon. Mae un o'n disgyblion, Tom o Flwyddyn 5, wedi cydweithio gyda'i dad ar fenter arloesol, sef gwefan cyfnewid dillad ysgol, https://freeschoolclothes.com/

Yn ystod yr wythnos, gwahoddwyd nifer o ymwelwyr i'r ysgol, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r wasg, i helpu dewis a beirniadu'r logo buddugol ar gyfer y wefan. Diolch hefyd i flwyddyn 6 am eu cyflwyniad arbennig. Rydym yn hynod falch o ymdrechion Tom ac yn edrych ymlaen yn eiddgar at glywed mwy am y fenter yn y dyfodol.

# Y Nyth

## Rheoli Pryder

Diolch o galon i'r rhieni a ddaeth i'r gweithdy bore 'ma. Rydym yn gwerthfawrogi'ch cefnogaeth yn fawr. Diolch hefyd i Dr Brianna-Wride am gynnal sesiwn llawn gwybodaeth ac am egluro sut y gall rieni gefnogi yn y cartref.
Os oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer gweithdai'r dyfodol, mae croeso mawr i chi gysylltu â ni.

## Dysgu fel Teulu – Ditectifs Natur

Diolch hefyd i'r holl rieni a'r plant a gymerodd ran yn ein gweithdy dysgu awyr agored ar ddydd Mercher.  Mawr obeithiwn fod y sesiwn wedi cynnig syniadau defnyddiol i'ch helpu gartref. Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i Kate Teruel-Serrano o Goleg Caerdydd a'r Fro am gyflwyno sesiwn mor ddifyr.

## Partneriaid darllen

Rydym yn chwilio am bartneriaid darllen ar gyfer mis Medi. Os oes gennych hanner awr i'w sbario bob wythnos, byddem wrth ein bodd pe gallech gefnogi ein disgyblion drwy gynnal sesiynau darllen gyda nhw.

Mae darllen a mwynhau darllen yn ganolog i'n gwaith yma yn Ysgol Treganna, ac rydym yn awyddus i ddatblygu ein darpariaeth ddarllen ymhellach ym mis Medi. Mae gennym nifer o gynlluniau cyffrous ar y gweill i hybu cariad at lyfrau a datblygu hyder ein disgyblion.

Rydym yn credu'n gryf bod darllen yn sgil hanfodol, ac yn gweithio'n galed i sicrhau bod llyfrau'n cael eu defnyddio i feithrin mwynhad a diddordeb mewn darllen. Hoffem hefyd ddiolch yn fawr i'r GRhA am eu cefnogaeth barhaus, gan gynnwys prynu nifer o lyfrau darllen newydd i'r ysgol.

Mae anfon llyfrau adref yn flaenoriaeth i ni, ac rydym yn defnyddio adnoddau digidol fel Darllen Co hefyd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cymryd lle'r profiad o ddarllen llyfr go iawn, rhywbeth sy'n bwysig iawn i ni yma yn Ysgol Treganna.

Cofiwch, os yw eich plentyn yn dod adref gyda llyfr darllen, eich bod yn ei ddychwelyd i'r ysgol ar ôl ei ddarllen.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth barhaus.

## Patrwm Iaith yr Wythnos

**Patrwm iaith wythnos nesaf**
Beth wyt ti'n gallu gwneud?
Dwi'n gallu…
Dydw i ddim yn gallu…
**Her**
Rydw i'n mwynhau…oherwydd
Hoffwn i wella…

**Testun trafod yr wythnos**
Beth petai dim tymhorau yng Nghymru?

**Cân yr wythnos**
Dom a Lloyd- Calon y Ddraig

**Idiom yr wythnos**
Deuparth gwaith yw ei ddechrau